

Cofnodion Cyfarfod 11 Medi 2012 a gynhaliwyd yn y Felin sgwrsio, Y Felinheli am 7:00 yh.

### YN BRESENNOL

Ken Brown  
Lena Ashley  
Bethan Jones  
Eluned Owen  
Pat Jones

Daniel Williams  
Louise Hughes  
George Smith  
Iestyn Harris

Hefyd yn bresennol Wynne Barton  
Swyddog Ariannol

### 1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

- 1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Medi'r Cyngor, adroddodd y Cadeirydd ei fod yn siomedig gyda Cyngor Gwynedd yn eu gwasanaeth gan i nifer o bethau eu rhoi ger eu bron yn ddiweddar a bod dim gweithred hyd yma.

**Ymddiheuriadau** Siân Gwenllïan, Nerys John a Hywel V Jones

- 1.2 Croesawyd Dafydd Einion Jones i'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i annerch y Cyngor i roi gwybodaeth ynglŷn â ffynonellau o gymorth ariannol i'r fenter o gyhoeddi pamffled teithiau hanesyddol ar hyd llwybrau cyhoeddus y pentref.
- 1.3 Rhoddwyd ychydig o wybodaeth i'r Swyddog ynglŷn â bwriad y Cyngor Cymuned i weithio a Gareth Roberts mewn prosiect i ddylunio a chyhoeddi pamffledi teithiau cerdded o fewn y Felinheli ac yn sgil hynny gwneud defnydd o Ganolfan Gerdded Llanberis, roedd y Cyngor yn awyddus i wybod a oedd cymorth ariannol i gael i gyhoeddi'r pamffled.
- 1.4 Dywedodd y Swyddog nad oedd yn sicr o ddyddiad agor y Ganolfan Gerdded ond bod Menter Fachwen ar hyn o bryd yn gwneud Ceisiadau Grant, nid oedd yn gwybod pa rai.
- 1.5 Yn y cyfamser os oedd y Cyngor Cymuned am drïo cael cyfraniad ariannol at be bynnag elfen o gostau a fydd y cyngor yn gyfrifol am yna un o'r llefydd lle gellid gofyn yw First Hydro, Llanberis.
- 1.6 Cyfeiriodd y Swyddog at brosiect "Ein Treftadaeth" a hefyd Y Loteri Treftadaeth ond mae Menter Fachwen yn ystyried gwneud cais atynt a gwell fyddai disgwyl i weld be fydd yn mynd i mewn ganddyn nhw am y tro.

**Y Swyddog i anfon manylion cyswllt y ffynonellau at y cler.**

### 2.0 DATGAN DIDDORDEB

Dim.

Heather Lynne Jones

### **3.0 COFNODION**

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 10 a 31 o Orffennaf 2012

**Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir;** arwyddwyd y cofnodion.

### **4.0 MATERION YN CODI**

4.1 Cyfarfod a Mr Horrocks ynglŷn â'r Maes parcio i'w drafod o dan eitem 12.1

4.2 Gwefan y Felinheli – nifer o "hits" am fis Fehefin = 52,815.

4.3 Ffordd Osgoi arfaethedig Bontnewydd a Chaernarfon - gan fod y Cadeirydd wedi methu bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn Gwrthwynebu'r llwybr Porffor rhoddodd y Clerc adroddiad byr i'r aelodau.

4.4 Roedd ymateb wedi ei dderbyn gan Carl Sargeant i Lythyr gwrthwynebu'r Cyngor yn datgan bod y penderfyniad wedi ei wneud ar ffeithiau sydd wedi eu cynnwys mewn astudiaeth y ffordd osgoi.

4.5 Yn dilyn yr ymateb yma gwnaethpwyd cais gan y Pwyllgor Gwrthwynebu am fanylion pellach ac o ganlyniad mae llythyr gwrthwynebu arall wedi ei anfon yn pwysleisio'r canlynol:

4.5.1 Data Gwrthdrawiadau ac atal colli bywydau

4.5.2 Datgysylltu Cymunedau

4.5.3 Pwyntiau peirianyddol yn codi o'r gwerthusiad

4.5.4 Datblygiad Watkin Jones yn y Felinheli

4.5.5 Risg o lifogydd yn y Felinheli a Bethel

5.6 Bydd gwybodaeth diweddarar'r ymgyrch yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

### **5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**

5.1 Y Pwyllgor wedi cyfarfod ac wedi cyflwyno cais am fenthyciad i'r Cyngor Cymuned; £4381 yn weddill i'w dalu i'r adeiladwr. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor bod ychydig dros fil o bunnoedd yng nghyfri'r neuadd.

5.2 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r modd o gyflwyno'r benthyciad; awgrymodd y Swyddog Ariannol bod y Cyngor yn talu'r £4000 gyda Pwyllgor y Neuadd yn talu'r gwahaniaeth; yna'r cyfanswm y benthyciad fyddai £6000 ac i Bwyllgor y Neuadd i'w dalu yn ôl fel bo'r gallu.

#### **Cytunodd y Cyngor yn unfrydol i hyn.**

5.3 Adroddwyd bod llawr ger drws y neuadd wedi sigo; mae'r adeiladwr yn ymwybodol o hyn ac mae'r gwaith mewn llaw.

5.4 Cytundeb Waith y Gofalwraig angen ei chwblhau.

- 5.5 Ymholiadau wedi eu gwneud gan Gwmni Drama Bara Caws i ddefnyddio'r Neuadd ar nos Lun ym Mis Mawrth 2013, efallai bydd angen symud noson y Badminton am noson. Bara Caws am drefnu ymweliad.
- 5.6 Os bydd Bara Caws yn defnyddio'r neuadd efallai byddai modd defnyddio maes parcio Neuadd yr Eglwys. Ymholiadau am ddefnyddio'r maes parcio i'w gwneud ac offeiriad y plwyf.

## **6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.**

- 6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Gorffennaf a Mis Awst a derbyniwyd yr adroddiad ariannol.
- 6.2 Llythyr UHY Hacker Young – Datganiad gan yr Archwilwyr yn dweud bod y Cyfrifon yn gwbl gywir; er hynny rhoddwyd sylw ar yr Asedau Sefydlog sef Gwerth y neuadd.
- 6.2.1 Gwerth y Neuadd ar gyfer Yswiriant yw £674K, gofynnir dylai y Gwerth adlewyrchu'r gwariant a dod a'r gwerth y neuadd i £927K.
- 6.2.2 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chael prisiad gan Dafydd Hardy.

### **Penderfynwyd bod y Swyddog Ariannol yn trefnu cael prisiad (valuation) oddi wrth Dafydd Hardy.**

Derbyniwyd adroddiad UHY Hacker Young; Arwyddwyd y datganiad gan y Cadeirydd.

- 6.3 Cyfieithu - roedd y cyfieithydd presennol wedi etifeddu telerau'r gwasanaeth cyfieithu a bellach roedd yn gallu adolygu'r gwasanaeth a chynnig y canlynol. Cyfarfodydd ym mharau oddeutu 2.75 awr, cost cyfieithu £28 yr awr yna £77 am y cyfarfod ynghyd a £40 cost llogi offer a 43c y filltir cost teithio £4.30 cyfanswm £121.30 y cyfarfod (TAW £24.26). Isafswm 2 awr.

### **Derbyniwyd y telerau yn unfrydol gan y Cyngor.**

## **7.0 GOHEBIAETH**

- 7.1 Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Gorchymyn Cyfyngu aros i ddwy awr, Stryd Bangor, Y Felinheli – Darllenwyd a thrafodwyd y llythyr; roedd y Cyngor yn siomedig iawn.

### **Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon llythyr yn datgan eu siom ar wasanaeth Cyngor Gwynedd.**

- 8.2 Llythyr Carl Sargeant – trafodwyd cynnwys y llythyr o dan eitem 4.4.

## **8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC**

- 8.1 Adroddwyd bod saer maen wedi ymweld â safle'r cloc a'i fod am archwilio achos y gwlybanaeth yn y cloc. Roedd yn tybio mai'r mortar cement oedd y bai; dylai mortar calch wedi ei ddefnyddio. Bydd yn anfon ei argymhellion ynghyd a chostau maes o law.

## **9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 9.1 C12/1105/20/LL cais i godi adeilad amaethyddol ar gyfer cadw peiriannau – Parciau, Griffiths Crossing, Caernarfon, LL55 1TS. **Dim gwrthwynebiad.**

**Y Clerc i hysbysu'r Adran Gynllunio o benderfyniadau'r Cyngor.**

## **10.0 NEUADD YR EGLWYS**

- 10.1 Felin-gylchu bellach yn gweithredu yn y Neuadd.

## **11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**

- 11.1 Diolchodd y Cadeirydd i Bethan Jones a Louise Hughes am eu gwaith gweinyddol a'r fynwent.
- 11.2 Mae nifer o gwynion wedi bod eleni ynglŷn â safon torri a chlirio'r Ymgwymerwr Torri Gwair. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r mater ynghyd a diffyg cysylltu ag ef.
- 11.3 Mae'r toriad olaf y contract Mis Medi.

**Penderfynwyd bod y Swyddog Ariannol yn cysylltu â'r Ymgwymerwr Torri Gwair.**

## **12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**

- 12.1 Mr Horrocks yn barod i gyfarfod a'r Cynghorwyr perthnasol, y Cadeirydd i drefnu amser a dyddiad cyfarfod.
- 12.2 Safle Moriah - Gwair wedi ei dorri tair gwaith eleni ac fel arwydd o ewyllys da bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu toriad ychwanegol.
- 12.3 Cafwyd adroddiad bod baw ci ar y Lon Las a dim ond dau bin ar gael ar hyd y llwybr; yn anffodus mae dyraniad o finiau sydd ar gael i Felinheli wedi ei gyrraedd.

**Penderfynwyd bod y Clerc i anfon at y swyddog perthnasol i ofyn oes modd ail osod y bin ger y stesion ymhellach ymlaen.**

## **13.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**

- 13.1 Gwaith wedi ei wneud yn rhannol ar y llwybr rhwng Seion (Gelli Gyffwrdd) a'r Felinheli. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud yn fuan.

**14.0 CYNGHORYDD SIR**

- 14.1 Kiosk – y Cynghorydd Sir wedi anfon gwybodaeth bod y gwaith cynnal wedi ei gwblhau a bod y gwaith paentio wedi ei roi ar atodlen baentio 2013.

**15.0 UNRHYW FATER ARALL**

- 15.1 **Felin-gylchu** - cafwyd cais am arian oddi wrth y Felin Gylchu, rhoddwyd gwybodaeth bod y Felin yn agored o ddydd Iau i ddydd Sadwrn bob wythnos. Bydd 50% o'r elw yn mynd at do'r eglwys.

**Penderfynwyd bod y Swyddog Ariannol yn anfon yn ôl at y Felin-gylchu a'u hysbysu bod ceisiadau yn cael eu derbyn ym mis Chwefror a dylem anfon eu cais pryd hynny ynghyd a datganiad o'u pwrpas a'u mantolen.**

- 15.2 **Tir Lan y Môr** - Derbyniwyd anfoneb am £70 oddi wrth Jones Peckover am y rhent. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am y rhent ar hyn o bryd hyd nes bydd y Lles newydd a Cyngor Gwynedd wedi eu cwblhau.

**Cyngor yn unfrydol i dalu'r anfoneb.**

- 15.3 **Hyfforddiant** - rhoddwyd gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant Unllais Cymru sydd ar gael yn y dyfodol agos.

**Y Clerc i anfon ar Unllais i gadw lle ar gyfer yr 21 o Fedi a 17 Hydref 2012.**

Llofnod: ..... Dyddiad:.....